Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Mai 2020 am 5.00yh trwy linc fideo ar y wê

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 May 2020 at 5.00pm through video link on the web

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr**/Councillors Shan Williams *(***yn y gadair**/in the chair), Clive Davies a Mrs Eleri Maskell (**clerc**/clerk*).*

Cynhaliwyd y cyfarfod ar y wê oherwydd rheoliadau yn ymwneud â Covid-19. Dosbarthwyd yr Agenda llawn ymlaen llaw i'r cynghorwyr a derbyniwyd eu hadborth.

The meeting was held through video link due to regulations relating to the outbreak of Covid-19.
The full Agenda was shared with councillors prior to the meeting for feedback.

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**
   The Chair's Welcome and Personal Matters.
   Croesawodd y Maer, y Cyng. Shan Williams, y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, a'r clerc i'w chyfarfod olaf yn y swydd tan yr amgylchiadau digynsail sydd ohoni.
   The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, and the clerk to her last meeting as chair in these unprecedented circumstances.

2. **Ymddiheuriadau /** Apologies.
   Oherwydd yr amgylchiadau ynghylch Covid-19, derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y cynghorwyr eraill.
   Due to Covid-19, all remaining town councillors forwarded their apologies.

3. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**
   Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.
   Neb yn datgan diddordeb.
   No one declared interest.

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Ebrill.**
   Confirmation of Minutes of 7 April Council Meeting.
   Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cofnodion cyfarfod 7 Ebrill yn gywir.
   Cllr Shan Williams proposed that the 7 April council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Clive Davies.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion /** Matters arising from Minutes.
   Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion nad oedd ar yr Agenda.
   No matters arising from the minutes not included on Agenda

6. **Cynllunio /** Planning:

Rhif y Cais / App. No.	*Cyfeiriad /* Address	*Y Bwriad /* Proposal	*Sylwadau* / Comments
A200322	HSBC, 11 High Street, Cardigan	Application for consent to display an advertisement.	*Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad os yw'r arwydd yn ddwyieithog.* Council has no objection if the display is bilingual.
A200323	HSBC, 11 High Street, Cardigan	Replacement of 1 no. existing external ATM signs with 1 no. new external ATM signs.	*Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad os yw'r arwydd yn ddwyieithog.* Council has no objection if the display is bilingual.
A200338	Lot Adjacent to Pen-y-Marian Villa, Spring Gardens Cardigan	Erection of a dwelling and carport	*Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.* Council supports the application.

7. **Biliau i'w talu /** Bills to be paid.

Dyddiad / Date	*Disgrifiad / Description*	*Côd / Code*	*Rhif y Siec Cheque No.*	*Swm (TAW) / Sum (VAT)*
1/4/20	Tai Aberteifi Ltd.: *Rhent Swyddfa'r Cyngor* / Rent of Council Office (*Ebrill/April*).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room			
	Cyfarfod y Cyngor / Council Meeting (7 Ebrill/7 April)	A9	4883	£25.00 (0.00)
	Band Lydan (Mai) / Broadband (May)	A20	4883	£20.00 (0.00)
1/4/20	Eleri Maskell*: Cyflog y Clerc /* Clerk's Salary (*Ebrill*/April)	A5	4884	£1,200.10 (0.00)
19/03/20	BT Business bill	A20	4885	£84.36 (14.06)
31/3/20	*Bachan Deche* / Handyperson (*Ebrill* / April)	A19	4886	£345.60 (57.60)
29/2/20	M & E Pearce Ltd – Ref: Padlock, chains (Covid-19)	C6	4887	£42.90 (7.15)

***Derbyniadau/*Receipts:**

30/04/2020 *Cyngor Sir Ceredigion (Praesept 1/3)*
Ceredigion County Council (Precept 1/3) £27,998.49

8. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles

(i) **Mae SBWRIEL yn dal i fod yn fater sy'n codi pryder yng nghanol y dref. Trefnir casgliad y bagiau duon bob tair wythnos, ac eto mae rhai pobl yn eu rhoi allan yn syth ar ôl casgliad – sy'n golygu eu bod allan am dair wythnos, gydag adar ac anifeiliaid yn eu rhwygo am fwyd. Mae'r Cyng. Miles, pobl leol a swyddogion CSC yn ceisio datrys y broblem ond, wrth reswm, mae ganddynt faterion eraill ar y plât ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hyn yn fater iechyd a diogelwch digon gofidus.**
Mae achosion hefyd o wasgaru sbwriel anghyfreithlon ym maes parcio Stryd y Cei. Mae un busnes yn mynd â gwastraff cardfwrdd yno'n rheolaidd a'i adael ger y cist casglu papur gwast. "Name and shame" bydd hi, os yw hyn yn parhau!
Mae pobl yn gadael dillad hefyd, er nad yw'r blychau'n cael eu gwacáu ar hyn o bryd.

(ii) **STRYDOEDD BRWNT: Mae'r sefyllfa wedi gwella rhywfaint o ganlyniad i aelod o'r cyhoedd brwsio'r baw i'r hewl. Fodd bynnag, croesewir cynnig gan gwmni lleol i olchi'r mannau gwaethaf – gan nad yw CSC yn gweithredu rhaglen o lanhau'r strydoedd ar hyn o bryd.**

(iii) **GWIRFODDOLWYR: Mae'r grŵp lleol yn Aberteifi (*Cardigan - Corona Virus Help*) yn gweithio'n arbennig o dda, yn cydlynu gweithgareddau gyda CAVO a CSC ac yn dangos sawl enghraifft o arfer da – sy'n cael ei rannu gyda grwpiau eraill ledled y Sir.**

(iv) BLYCHAU BWYD: Y gobaith yw o ddechrau mis Mai ymlaen y bydd CSC yn medru ailgydio'n y broses o ddosbarthu blychau bwyd gyda chynnwys mwy lleol na'r rhai sydd wedi cyrraedd o Lywodraeth Cymru.

(v) YSGOLION/ADDYSG: Mae CSC yn cyfarfod yn rheolaidd gyda phennaeth pob ysgol gynradd ag uwchradd yn y Sir. Bydd rheini'n cydlynu rhaglen o waith ar gyfer pob disgybl tra'u bod yn astudio o gartref.

(vi) PRYDAU YSGOL AM DDIM: Oherwydd rhai anawsterau gyda thalebau i brynu bwydydd mewn archfarchnadoedd, mae'r Awdurdod wedi trefnu taliadau uniongyrchol i deuluoedd plant sy'n haeddu prydau ysgol am ddim – hyd yn oed trwy wyliau'r Pasg. Bydd hyn yn parhau hyd nes i'r ysgolion ailagor. Nid oes dyddiad wedi ei benodi hyd yma.

(vii) FEIRWS CORONA: Mae grŵp penodol o swyddogion CSC yn gweithio ar raglen "Contact Tracing". Bydd hwn, ynghyd â rhaglen Profi ("Test, Trace & Quarantine") yn hwyluso ail-gydio mewn rhyw fath o normalrwydd maes o law.

(b) Y Cyng. Elaine Evans

(i) Derbyniwyd adborth positif i wefan CSC, yn cymeradwyo'r wybodaeth sydd ar gael oddi ar i'r Feirws Corona dorri allan. Mae'n ffynhonnell dda o wybodaeth sydd yn galluogi cynghorwyr ei dosbarthu yn y cymuned.

(ii) Yn dilyn fy nghais I'r cyngor sir, rhoddwyd Gerddi Fictoria o dan glo oherwydd cwynion fod pobl ddim yn dilyn rheolau ymbellhau'r llywodraeth.

(iii) Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r gymuned ynglŷn â dronau, a'u bod yn amharu ar breifatrwydd yr unigolyn. Bydd rhaid monitro'r sefyllfa.

(iv) Pobol ddim yn cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol – mae sawl esiampl o hynny yn creu pryder yn y gymuned. Mae adeiladwyr sy'n gweithio yn agos i dai eraill yn anwybyddu'r canllawiau diweddaraf. Awgrymir y dylir anfon adroddiad o bob enghraifft at yr heddlu.

(v) Mae'r Cyng. Evans wedi gofyn am rodd ariannol oddi wrth Ffrindiau Ysbyty Aberteifi i Fanc Bwyd Aberteifi. Disgwylir ateb mewn da bryd.

(vi) Tipio sbwriel anghyfreithlon – Mae App newydd "Clear Waste" ar gael sydd yn galluogi'r cyhoedd i adrodd am digwyddiadau trwy ddanfon lluniau yn syth at yr Awdurdod Lleol. Disgwylir ymateb oddi wrth CSC am eu hymateb i'r cynllun.

(a) Cllr Catrin Miles

(i) REFUSE is an ongoing issue, causing concern in the town centre. Black bag collection rules are often disregarded, with people putting them out almost immediately after collection, which means that they are out for almost three weeks, with birds and animals tearing bags that contain any food waste. With local people and CCC officers, Cllr Miles is pursuing the issue but is aware that officers have a huge workload at present. Nevertheless, this is a serious Health & Safety issue, and is being addressed.

There are cases of fly-tipping, particularly in the Quay Street car park. One local business persists in taking packaging/cardboard down to the site on a regular basis, leaving it outside the collection box. If this continues, it will be a case of "name and shame"! Bags of clothing are also being left, even though containers are not presently being emptied.

(ii) STREET-CLEANING. The situation has improved somewhat, due to a member of the public brushing dirt from the pavement onto the street. However, the offer by a local company to pressure-wash the worst areas is most welcome, particularly since CCC is not operating a street-cleaning programme at present.

(iii) VOLUNTEERS: the local group (Cardigan - Corona Virus Help) is working extremely well and coordinating activities with CCC and CAVO (Ceredigion Association of Voluntary Organisations). They are showing several examples of good practice that are being rolled out throughout Ceredigion.

(iv) FOOD BOXES: From 1st May onwards, it is hoped that CCC can once again take control of supplying box-contents, using local suppliers, for distribution to those who are "shielding". Feedback indicates that people much prefer the CCC boxes to those distributed by the Welsh Government.

(v) SCHOOLS/EDUCATION: The CCC Chief Education Officer is in regular contact with Primary and Secondary head-teachers who, in turn, coordinate a programme of study for all pupils whilst they are home-educated.

(vi) FREE SCHOOL MEALS: Due to some problems with the voucher-system, CCC has reverted to direct payments to the families of children eligible for Free School Meals, even throughout the Easter holidays. This system will continue until such a time as schools re-open (No indication of date, as yet.)

(vii) CORONA VIRUS: a group within CCC is working on a "Contact Tracing" programme. This, along with Testing ("Test, Trace & Quarantine") is vital in the process of resuming some semblance of normality in due course.

(b) Cllr. Elaine Evans

(i) Positive responses have been received for the CCC website, since the Corona virus outbreak, commending them on the information available. It is a good source of information for councillors to distribute in the community.

(ii) The Victoria Gardens gates were locked on Cllr Evans' request to CCC due to people using it and not social distancing.

(iii) A complaint was received from a member of the community regarding drones, perceived as being an invasion of privacy. The situation will continue to be monitored.

(iv) People not complying to social distancing – there are several areas for concern in the community. For example, builders continue working in close proximity to other houses and not obeying new guidelines. It is recommended that any such issues be reported to the police.

(v) Cllr Evans has requested a financial donation to the Cardigan Food Bank from the Friends of Cardigan Hospital. A response is awaited.

(vi) Fly tipping –Cllr Evans is looking into a new App called Clear Waste enabling members of the public to report occurrences by sending photographs to their Local Authority. The involvement of the county council in the scheme is awaited.

9. **Gohebiaeth** / Correspondence.

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read	*Sylwadau / Comments*
26	CSC/CCC (Stephen Johnson*): Taliad cyntaf Praesept 2020-21*. First payment of 2020-21 Precept (£27,998.49)	*Er gwybodaeth.* For information.
27	CSC/CCC: *Gwasanaethau Democrataidd* / Democratic Services – *Adrodd problemau i'r Heddlu* / Reporting issues to the Police.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14/04/2020* Forwarded to all councillors on 14/04/2020 *Nodwyd.* Noted.
28	CSC/CCC: Gerwyn Jones – *Canllawiau marchnad stryd Ffair Aberteifi* / Arrangements for Cardigan Fair street market.	*Diolch am yr ymateb positif tuag at y canllawiau.* Thank you for a positive response to the arrangements.
29	CSC/CCC: Tom Delph-Janiurek – *Arwyddion tuag at y Ganolfan Gofal Iechyd newydd.* Directions signage for Cardigan Integrated Care Centre.	*Eglurhad ymhellach am wrthod arwyddion newydd i'r CICC.* Further explanation refusing signage for the CICC.
30	CSC/CCC: Sara Dafydd – *Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus* / Public Space Protection Orders.	*Diolch am barhau gyda'r ddarpariaeth .* Thank you for continuing the provision.
31	CSC/CCC: *Gwasanaethau Democrataidd* / Democratic Services – *Hawliau Tramwy Cyhoeddus* /	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 9/04/2020* Forwarded to all councillors on 9/04/2020

	Public Rights of Way.	*Nodwyd.* Noted.
32	CSC/CCC: Catrin Newbold – *Diweddariad gan y Gwasanaeth Rheoli Datblygu ar ran Economi ac Adfywio* / Development Management Service Update for Economy and Regeneration.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15/04/2020* Forwarded to all councillors on 15/04/2020 *Nodwyd yr wybodaeth ddiweddaraf..* Information update has been noted.
33	Deryck Evans – *Archwilio Cymru* / Audit Wales – *Diweddariad* / Update	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 21/04/2020* Forwarded to all councillors on 21/04/2020 *Nodwyd.* Noted.
34	Laura Winter Cardigan Corona Virus Help – *Cais am rodd ariannol /* Application for a cash donation.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 21/04/2020* Forwarded to all councillors on 21/04/2020 *Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth a gwerthfawrogiad.* Clerk to send letter of support and appreciation.
35	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Canllawiau ar gyfer cefnogi cyfarfodydd a gynhelir o bell* / Guidance to support remotely held meetings.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 23/04/2020* Forwarded to all councillors on 23/04/2020 *Nodwyd.* Noted.
36	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Bwletin COVID-19 Llywodraeth Cymru* / Welsh Government COVID-19 bulletin.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/04/2020* Forwarded to all councillors on 27/04/2020 *Nodwyd diweddariad.* Update noted.
37	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru /* One Voice Wales – *Nodyn cefndir diweddaraf ar COVID-19 /* Latest COVID-19 briefing.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/04/2020* Forwarded to all councillors on 27/04/2020
38	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Brîff i Randdeiliaid ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â COVID gan LlC /* Stakeholder briefing on COVID related developments	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/04/2020* Forwarded to all councillors on 27/04/2020 *Nodwyd diweddariad.* Update noted.
39	Leanda Wynn *Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Claf* / Public and Patient Engagement Officer. *Arolwg CIC Hywel Dda* / Hywel Dda CHC Survey.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30/04/2020* Forwarded to all councillors on 30/04/2020 *Cynghorwyr o'r farn ei fod yn anaddas i'r wefan; annog i'w siario ar y cyfryngau cymdeithasol.* Councillors felt it was unsuitable for website. Please share via social media accounts
40	*Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Rhifyn Mai o gylchlythyr y Cyswllt Cymunedol.* Police and Crime Commissioner Dyfed-Powys. May edition of the Community Link newsletter.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 01/05/2020* Forwarded to all councillors on 01/05/2020 *Nodwyd.* Noted.
41	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Taflen Holi ac Ateb – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws).* Question and Answer Brief – The Local Authorities (Coronavirus).	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 04/05/2020* Forwarded to all councillors on 04/05/2020 *Nodwyd.* Noted.
42	*Cyngor Tref Aberteifi* / Cardigan Town Council – *Llythyr o werthfawrogiad i Mr Marc Thomas am lanweithio ardaloedd cyhoeddus y dref.* Letter of appreciation sent to Mr Marc Thomas for sanitizing common areas in Cardigan.	*Er gwybodaeth /* For Informaton.

10. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

<u>Adroddiad Bachan Deche:</u>

Maes Chwarae Brenin Siôr 5ed – dim sylwadau.

Man Chwaraeon Amrywiol a Chwrt Tenis – dim sylwadau.

Maes Sgrialu – dim sylwadau.

Mae David Trem wedi cytuno i blannu'r basgedi; efallai bydd yna brinder dewis yn y blodau.

Mae'r Bachan Deche wedi archebu rhywfaint o flodau ar gyfer y dref, felly bydd yna rhywfaint o liw wedi i'r sefyllfa bresennol ddiflannu.

Mae'r Bachan Deche wedi symud ymlaen i dorri porfa'r senotaff am iddo edrych yn anniben; gweithwyr CSC sydd fel arfer yn ei wneud.

<u>Handyperson's Report:</u>

King George 5th Children's Play Area – nothing to report.

Multi-purpose play area and Tennis Courts – nothing to report.

Skateboard Park – nothing to report.

Mr David Trem has agreed to fill the baskets this year again with a limited choice of flowers.

The Handyperson has managed to obtain a limited supply of flowers for the tubs and planters – the town at least will have some bright colours when the lockdown will be lifted.

Due to the grass at the Cenotaph looking rather untidy, the Handyperson took the decision to cut the grass and tidy up generally. Normally, the CSC is responsible for its upkeep.

Rhoddion o Gronfa'r Maer

Mayors' Fund Donations

Dymunodd y Cyng. Shan Williams gyfrannu £500 i elusen Gofal Cancr Aberteifi a £500 i sefydliad yr RNLI.

Cllr Shan Williams has chosen to donate £500 to Cardigan Cancer Care and £500 to the Royal National Lifeboat Institution from the Mayor's Fund.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Mae'r cyngor yn ddiolchgar i Mr John Morris am ddefnyddio ei ddoethineb i drîn planhigion a phorfa ger y senotaff, yn enwedig gan ei fod yn ddiwrnod Cofio 75 Mlynedd Diwedd yr Ail Rhyfel Byd ddydd Gwener, 8 Mai.

(a) The council is grateful to Mr John Morris for using his initiative by maintaining the grass and plants at the cenotaph, especially in preparation for the 75th Anniversary of Victory in Europe Day on Friday, 8th May.

(b) Glanhau'r strydoedd – Cytunwyd gofyn i Mr Marc Thomas lanhau palmant y Stryd Fawr (gan gymryd y camau angenrheidiol i gadw'n ddiogel) gan ddechrau ger Castell Aberteifi i fyny at ardal Pendre. Gofynnwyd iddo adrodd yn ôl a rhestru i'r cyngor yr adeiladau sydd â'r broblem fwyaf o safbwynt carthion colomennod sydd yn anharddu'r palmentydd fel y gellir datrys y broblem i'r dyfodol

(b) Street cleaning - It was proposed that the council request Mr Marc Thomas to carry out this service (using the necessary protection), focusing on the High Street pavement, from Cardigan Castle to Pendre. It was also requested that Mr Thomas prepares a report stating where pigeon excrement is at its worst allowing the council to inform CCC of the main business property offenders, enabling pressure to be placed upon owners to rectify the problem in future.

(c) Tipio sbwriel anghyfreithlon: Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa, nid oes llawer y gellir ei wneud i ddatrys y broblem ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd gwasanaethau'r cyngor sir yn ailweithredu'n fuan. Gofynnir i'r cynghorwyr annog y cyhoedd i fod yn wyliadwrus ac i adrodd yn ôl i'r heddlu. Y clerc i ddanfon rhestr o'r lleoliadau lle gwelir sbwriel anghyfreithlon ar hyn o bryd er mwyn i'r cyngor sir flaenoriaethu arnynt pan ddaw'r sefyllfa presennol i ben.

(c) Fly tipping: Unfortunately, nothing can be done to resolve the situation at the present time. It is hoped that county council services will be back on line soon. Councillors are requested to advise the public to be vigilant and report incidents to the police. Clerk to send email with list of current incidences to CCC in order to prioritise the areas when lockdown is lifted.

(d) Grŵp Feirws Corona Aberteifi: Cyfrannwyd £210 gan y Maer, y Cyng. Shan Williams, i gefnogi'r gwaith da a gyflawnir yn lleol gan y Grŵp. Mae'r Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, wedi darganfod noddwr lleol sydd yn barod i gyflenwi peiriannau cerdyn yn rhad ac am ddim i'r Grŵp. Cynghorwyd y Grŵp hefyd sut i sefydlu menter gymdeithasol a rhannwyd gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael i'w cadw'n weithredol yn y dyfodol.

Nodwyd bod y Cyng. Richard Jones a'r Dirprwy Faer wedi trafod â Laura Winter am drefniadau ar gyfer symud un diffibriliwr dros dro i ganol y dref. Archebwyd yr uned, sydd wedi ei leoli yng nghwrt Neuadd y Dref, yn 2016 gan y Cyng. Clive Davies yn ystod

blwyddyn ei faeroliaeth. Mae'r Cyng. Richard Jones yn edrych am gabinet addas i'w leoli. Cytunodd Laura Winter gymryd cyfrifoldeb am yr uned yn ystod y trefniant dros dro.

(c) Cardigan Corona Virus Group – The Mayor, Cllr Shan Williams, recently donated £210 in support of the good work the Group is carrying out locally. The Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, has also been supportive through acquiring card machines free of charge from a local sponsor, advising how to set up a social enterprise, and collecting information on the grants available for funding, enabling the Group's future existence.
It was noted that Cllr Richard Jones and the Deputy Mayor have discussed with Laura Winter regarding the temporary relocation of one defibrillator in the town centre. The unit was donated by Cllr Clive Davies during his mayoralty year in 2016, and is located in the Guildhall courtyard. Cllr Jones is sourcing a suitable cabinet. Laura Winter will take responsibility for the unit during the temporary arrangement.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Tref Aberteifi

Cardigan Town Council Annual General Meeting

Seremoni Sefydlu Maer Tref Aberteifi 2020-21

Cardigan Town Mayor's Installation Ceremony 2020-21

Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, i'w ethol yn Faer Tref Aberteifi am y flwyddyn 2020-21. Roedd y cyngor yn unfrydol. Sefydlwyd y Cyng. Clive Davies yn Faer Tref Aberteifi ac arwyddwyd y ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" ganddo.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y Cyng. Debra Griffiths i'w hethol yn Ddirprwy-Faer Tref Aberteifi am y flwyddyn 2020-21.
Roedd y cyngor yn unfrydol. Bodlonodd dderbyn y swydd trwy ebost cyn y cyfarfod.

It was proposed by Cllr Shan Williams and seconded by Cllr Graham Evans that the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, be elected Cardigan Town Mayor for the year 2020-21.
Members were unanimous in their decision. Cllr. Clive Davies was installed as Cardigan Town Mayor and signed the "Declaration of Acceptance of Office" document.

Cllr John Adams-Lewis proposed that Cllr Debra Griffiths be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor for the year 2020-21. This was seconded by Cllr Elaine Evans. Members were unanimous in their decision. Cllr Griffiths accepted the role by e-mail prior to the meeting.

Cytunwyd bod Mr Richard Harman a Mr Roy Evans yn cael eu henwebu yn frysgyllwyr i Gyngor Tref Aberteifi.

It was agreed that Mr Richard Harman and Mr Roy Evans be nominated as mace-bearers to Cardigan Town Council.

Oherwydd y sefyllfa a grëwyd gan Covid-19, cynhaliwyd y seremoni uchod yn dilyn y cyfarfod misol nos Fawrth, 5ed Mai 2020. Hysbyswyd yr etholwyr, a derbyniodd yr holl aelodau agenda o'r cyfarfod ymlaen llaw.

Due to the lockdown created by Covid-19, the above ceremony was held following the monthly town council meeting on 5th May 2020. Public notices informed the electorate, and all members received the agenda of proceedings beforehand.

Gan nad oedd materion pelllach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 6:00yh.

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 6:00pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....